

CHEME

Canolfan Economeg
Iechyd a Gwerthuso
Meddyginiaethau



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

GAEAF 2015

YN Y RHIFYN HWN...

Rhagoriaeth Ymchwil

Croeso i newyddlen CHEME ac rydym yn dechrau'r flwyddyn gyda chanlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Cyfrannodd CHEME at 3 chyflwyniad i unedau asesu'r brifysgol, sef yr uned asesu gyda'r sgôr uchaf ym Mhrifysgol Bangor gyda 95% o'r cynnyrch gyda'r gorau yn y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol. Yn seiliedig ar gynnyrch ymchwil, roeddem yn drydydd allan o 94 sefydliad ledled y DU.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau a gweithgareddau ymchwil allweddol yn CHEME yn ystod yr ail hanner o 2014. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys cynhadledd Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) a'i thema oedd teyrnged i'r Athro David Cohen (Prifysgol De Cymru) cyfarwyddwr yr Uned Economeg Iechyd ac Ymchwil Polisi a ymddeolodd ym mis Hydref a rhoddwyd sylw i'r project ABC.

Ceir mwy o wybodaeth am ymchwil, addysgu a gweithgareddau cefnogi GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwyr Ann Lawton: a.b.lawton@bangor.ac.uk Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor a @ProfRTedwards.

Dyfrig Hughes & Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

Rhoi sylw i ymchwil
Rhoi sylw i Gynadleddau
Digwyddiadau i ddod
Trefniadau cyllido newydd
Newyddion am Staff
Cyhoeddiadau diweddar



Yr Athro David Cohen cyfarwyddwr yr Uned Economeg Iechyd ac Ymchwil Polisi yng nghynhadledd WHEG ym mis Tachwedd a

Canfod rhwystrau i gydymffurfio (project ABC)

Gan weithio gyda phartneriaid Ewropeaidd, cwblhaodd CHEME y project hwn a ariannwyd gan FP7 Ewrop oedd â'r nod o greu argymhellion polisi ar sail tystiolaeth i wella ymlyniad wrth feddyginiaethau.

Mae peidio â chadw at gymryd meddyginiaeth yn broblem fyd-eang sy'n fater o bryder mawr i iechyd cyhoeddus ac mae'n arbennig o berthnasol i wledydd yr Undeb Ewropeaidd, lle mae mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn dda a gwneir llawer o ddefnydd ohonynt. Mae canlyniadau ymchwil yn dangos yn glir bod peidio â chadw at gymryd meddyginiaeth yn rhwystr mawr rhag gwireddu'r buddion a ddaw o driniaethau ar sail tystiolaeth. Po isaf yr ymlyniad, y gwaethaf yw'r canlyniadau, ac mae'r triniaethau yn mynd yn llai cost-ffeithiol. Hefyd, mae peidio â chadw at gymryd meddyginiaeth yn golygu defnyddio mwy o wasanaethau iechyd a mwy o wariant ar ofal iechyd.

Mae canfyddiadau diweddaraf CHEME gyda'r project ABC wedi cael eu derbyn i'w cyhoeddi yn Value in Health. Yn yr astudiaethau diweddaraf hyn ein bwriad oedd nodi penderfyniadau peidio â chadw at gymryd meddyginiaeth mewn dioddefwyr gorbwysedd yn Awstria, Gwlad Belg, Lloegr, yr Almaen, Groeg, Hwngari, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl a Chymru. Llenwyd holiadur gan 2595 o gleifion. Roedd canran y cleifion a ystyriwyd fel rhai nad oedd yn cadw at gymryd meddyginiaeth yn amrywio o 24% yn yr Iseldiroedd i 70% yn Hwngari. Gwelwyd bod ymlyniad cleifion yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan eu hunan effeithiolrwydd, credoau am salwch a'r rhwystrau canfyddedig, ac awgrymir y dylai'r rhain fod yn dargedau ar gyfer ymyriadau i wella ymlyniad.

Dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o grŵp celf i bobl gyda dementia

Mae dadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn debyg i fuddsoddiad cost a budd lle bo mewnbyn ac allbwn

yn cael eu troi i werth ariannol; hefyd mae SROI yn ceisio dal y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd a symud tuag at werthusiad economaidd ehangach mewn ymyriadau sy'n anelu at gael effaith ehangach ar les yn hytrach nag ar iechyd yn unig. Defnyddir SROI yn y sectorau addysg a di-elw, ac nid yw'n cael ei ddefnyddio bron o gwbl i werthuso ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn rhannol oherwydd gall gwerthuso canlyniadau bod yn wrthrychol.

Fel rhan o'r project dementia a dychymyg, bydd pobl â dementia yn mynd i sesiynau celf wythnosol am 3 mis. Gill Windle yw prif ymchwilydd yr astudiaeth y gellir ei gweld ar y cyswllt: <http://dementiaandimagination.org.uk/>. Defnyddir cynllun astudio carfan heb ei reoli. Bydd tri lleoliad: y gymuned, cartrefi gofal preswyl ac unedau asesu cleifion mewnol. Bydd cyfranwyr yn cael eu cyfwrdd ar ddechrau'r astudiaeth, ar ôl 3 mis ac ar ôl 6 mis. Mae chwe cham i ddadansoddiad SROI: (i) sefydlu cwrpas a nodi budd-ddeiliaid, (ii) mapio canlyniadau, (iii) dangos a gwerthuso canlyniadau, (iv) sefydlu effaith, (v) cyfrifo'r SROI, a (vi) ei gofnodi fel cyfradd £x o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd am bob £1 a fuddsoddwyd.

Y prif ddangosydd am les cyfranogwyr yw mesur canlyniadol a adroddir gan glaf a gynllunnir i asesu ansawdd bywyd cysylltiedig ag iechyd i bobl â dementia (DEMQOL). Caiff agweddau staff eu mesur gyda'r holiadur dulliau ymdrin â dementia. Cynhelir cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr, teuluoedd a staff sy'n gysylltiedig â'r project i gasglu canlyniadau ehangach. Yn unol â chanllawiau'r Ganolfan dros ragoriaeth mewn Iechyd Cyhoeddus NICE, mae CHEME yn gynyddol yn defnyddio dadansoddiad cost a budd, SROI a dadansoddiad cost a chanlyniad i gasglu'r buddion ehangach ar draws gwahanol sectorau o'r adnoddau a ddefnyddir mewn ymyriadau iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol.



Aelodau o'r tîm ymchwil dementia a dychymyg.

WHEF 26-27 Tachwedd 2014

Cynhaliodd Grŵp Economegwyr Iechyd Cymru (WHEG) ei wythfed cyfarfod ar hugain ym Miskin Manor, Llantrisant lle dathlwyd gyrfa a llwyddiannau'r Athro David Cohen, yr Athro cyntaf mewn Economeg Iechyd yng Nghymru a Chyfarwyddwr HEPRU, Prifysgol De Cymru.

Rhoddodd Rhiannon Edwards o CHEME gyflwyniad ar yrfa lwyddiannus David yn cynnwys sut y bu'n gweithredu fel cynghorydd arbenigol i Sefydliad Iechyd y Byd ac i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod David yn aelod o nifer o sefydliadau cyllido ymchwil yn cynnwys Gwasanaeth Iechyd y Cyngor Ymchwil Meddygol a Bwrdd Ymchwil Iechyd Cyhoeddus a'r ddwy raglen genedlaethol Asesu Technoleg Iechyd a chyflwyno a threfnu gwasanaeth NIHR.

Rhoddodd David Cohen ei gyflwyniad ffarwel gyda'r teitl: On Bedbugs, Handymen and Cancer Drugs Funds: Reflections on 35 years as Health Economist. Yn ei gyflwyniad disgrifiodd ei brif neges, sef gan y bydd adnoddau'r GIG bob amser yn brin mae'n hollbwsig cael tystiolaeth am effeithiolrwydd cost yn ogystal ag effeithiolrwydd clinigol os ydym am gael y gwerth gorau am



Ned Hartfiel yn cyflwyno dadansoddiad buddsoddi ioga i atal poen cefn yng nghynhadledd gaeaf WHEG.

arian o gyllideb y GIG. Yn ei sgwrs, roedd David yn dadlau yn erbyn y camsyniad cyffredin bod economeg iechyd yn anfoesegol oherwydd ei fod yn ymwneud ag arbed arian. Dadleuodd na ellir cyfiawnhau'r farn hon gan ei bod yn seiliedig ar osodiad anghywir: mae economeg yn ymwneud â gwario arian - nid ei arbed. Mae gwario cyllideb y GIG yn aneffeithlon yn golygu na chaiff cleifion y manteision iechyd y byddent wedi eu cael pe baem wedi bod yn fwy effeithlon. Nid oes dim byd anfoesegol am hynny.

Rhoddwyd nifer o sgysiau gan aelodau CHEME. Cyflwynodd Jo Charles ac Elin Owen eu gwaith am eu dadansoddiad SROI SeeAbility o brofi golwg mewn ysgolion. Cafwyd cyflwyniad gan Colin Ridyard am y treial CATCH a rhoddodd wybodaeth am y setiau data a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad o gost-effeithiolrwydd. Cyflwynodd Ned Hartfiel ganlyniadau ei thesis mewn cyflwyniad o'r enw: *Dadansoddiad cost-effeithiolrwydd a chanlyniadau buddsoddi wrth ddefnyddio ioga i atal poen cefn ymhlith gweithwyr y GIG: canlyniadau hap brawf gyda rheolydd*

Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Gogledd Cymru 4 Medi 2014

Arweiniodd yr Athro Dyfrig Hughes yr ail NWMRS yng Ngwesty Kinmel, Abergele. Daeth nifer o bobl i'r digwyddiad a noddwyd gan Brifysgol Bangor, Fforwm Ymarfer Lleol Gogledd Cymru o'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y prif siaradwr oedd yr Athro Phil Routledge OBE, Athro mewn Fferylliaeth Glinigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd ei gyflwyniad 'From science to systems in optimising the use of medicines' yn disgrifio'r esblygiad o ddefnyddio warfarin yn glinigol a datblygiad asesiadau clinigol unigol a ddefnyddir heddiw. Cyflwynodd Dr Catrin Plumptre o CHEME ddadansoddiad economaidd o'r arbedion cost posibl trwy ddefnyddio cyfnewid generig



Yr Athro Ceri Phillips, yr Athro David Cohen a'r Athro Rhiannon Edwards yng nghynhadledd gaeaf WHEG.

mewn epilepsi, a disgrifiodd yr Athro Dyfrig Hughes yr astudiaeth 'Foliated', hap brawf gyda rheolydd plasebo yn ychwanegu ffoladau mewn therapi gwrth-iselder. Cewch fanylion llawn am y digwyddiad yn: <http://cheme.bangor.ac.uk/NWMedSymp2014.php.cy>

ESPACOMP 20 – 22 Tachwedd 2014

Rhoddodd yr Athro Dyfrig Hughes sgwrs ar werthusiad economaidd ymyriadau gwella ymlyniad i gyffuriau gwrth epileptig yn neunawfed cyfarfod blynyddol ESPACOMP a gynhaliwyd yn Lausanne, Y Swistir. Gwnaed y gwaith hwn fel rhan o Gynllun Grant Rhaglen Cochrane NIHR, yn gweithio ochr yn ochr â'r grŵp Epilepsi Cochrane i ddatblygu modelau economaidd yn seiliedig ar adolygiadau a phrotocolau Cochrane.

Dyma'r cynadleddau eraill yr aed iddynt

Aeth Carys Jones i'r Ysgol Haf Rhyngddisgyblaethol a gynhaliwyd yn TU, Dresden, 21-26 Medi. Testun y gynhadledd oedd y cyswllt rhwng technoleg a gofal iechyd, a chyflwynodd Carys boster ar ddefnyddio technoleg yn y project ENGAGE-HD.

Cyflwynodd Nathan Bray, Jo Charles a Carys Jones bosteri yn y gynhadledd Gwyddorau Iechyd Cyhoeddus yn Glasgow, 19 Tachwedd.

Digwyddiadau i ddod

Economeg iechyd ar gyfer ymarfer ac ymchwil i lechyd Cyhoeddus - cwrs byr dau ddiwrnod ym Mhrifysgol Bangor 23-15 Mawrth 2015. Pris y cwrs yw £750 yn cynnwys bwyd a llety o 4pm ddydd Llun, 23 Mawrth i 2.45pm ddydd Mercher, 25 Mawrth yn y Ganolfan Rheolaeth, Bangor. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw 28 Chwefror 2015. Mae ychydig o leoedd ar gael o hyd. I gofrestru a thalu, cysylltwch â: Mrs Ann Lawton yn cheme@bangor.ac.uk

Cyfes Seminarau

Mae'n bleser gennym gyhoeddi nifer o seminarau amser cinio fydd yn dechrau yn ystod gwanwyn 2015 yn Ardudwy.

- 1) Dydd Mawrth, 3 Mawrth - yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygiad, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- 2) Dydd Mawrth, 14 Ebrill – Dr Louise Longworth, Darlennydd mewn Economeg Iechyd, Prifysgol Brunel
- 3) Dydd Mawrth, 5 Mai – Dr Emma Frew, Uwch ddarlithydd mewn Economeg Iechyd, Prifysgol Birmingham
- 4) Dydd Mawrth, 2 Mehefin – Dr Martin Duerden FRCP, Ymgynghorydd Clinigol i RCGP ar ragnodi

Trefniadau cyllido newydd

Rydym yn falch iawn bod NISCHR ar ran Llywodraeth Cymru, wedi ail-gomisiynu Gwasanaeth Cefnogi Economeg Iechyd Cymru (WHESS) ar lefel Cymru gyfan i ddarparu cefnogaeth economeg iechyd i'r tair uned treialon clinigol a pharhau i ddatblygu mas critigol cydweithredol o arbenigedd economeg iechyd ar draws Cymru. Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards wedi cymryd lle'r Athro David Cohen fel cyfarwyddwr WHESS. Dyfarnwyd £1.2 miliwn i WHESS dros dair blynedd.

Newyddion am Staff

Croeso cynnes i Siobhan Bourke, Beth Thompson ac Eira Winrow sydd wedi ymuno â CHEME fel myfyrwyr PhD.

Croeso cynnes hefyd i'r Athro Mark Bellis sydd wedi ymuno â CHEME o lechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliad y bu gennym berthynas hir gyda nhw ers bron i 20 mlynedd - roedd Mark yn awdur a gyfrannodd at bapur Lancet diweddar ar ymdrin â chlefyd yr iau yn y DU; Giovanna Culeddu, sy'n gweithio i

ddechrau ar yr economeg iechyd o ddefnyddio halen haearn fferrus mewn gofal sylfaenol yn y DU; a Dr Elin Haf Davies, a ymunodd â CHEME yn ddiweddar fel Cymrawd Ymchwil. Mae'n gweithio ar brawf a gyllidwyd gan Arthritis-UK i asesu effeithiolrwydd mycofenolat wrth drin polyarteritis nodosa mewn plant.

Llongyfarchiadau i Dr Martin Duerden y dyfarnwyd Cymrawd o'r Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol iddo yn ddiweddar, ac i Dr Zoe Philips a benodwyd yn gymrawd ymchwil er anrhydedd mewn ffarmacoeconomeg i gydnabod ei chyfraniad sylweddol i'r gwaith yn CHEME.

Cyhoeddiadau Diweddar

Williams R, Aspinall R, Bellis M, Camps-Walsh G, Cramp M, Dhawan A, Ferguson J, Forton D, Foster G, Gilmore I, Hickman M, Hudson M, Kelly D, Langford A, Lombard M, Longworth L, Martin N, Moriarty K, Newsome P, O'Grady J, Pryke R, Rutter H, Ryder S, Sheron N, Smith T. Addressing liver disease in the UK: a blueprint for attaining excellence in health care and reducing premature mortality from lifestyle issues of excess consumption of alcohol, obesity, and viral hepatitis. *The Lancet* 2014; 384 (9958): p1953–1997. doi: 10.1016/S0140-6736(14)61838-9

Busse M, Quinn L, Dawes H, Jones C, Kelson M, Poile V, Trubey R, Townson J, Edwards RT, Rosser A and Hood K. Supporting Physical Activity Engagement in People with Huntington's disease (ENGAGE-HD) - Protocol for a Phase II Trial, *Trials*, 15:487 doi:10.1186/1745-6215-15-487

Hind D, Mountain G, Gossage-Worrall R, Walters SJ, Duncan R, Newbould L, Rex S, Jones C, Bowling A, Cattam M, Cairns A, Cooper C, Goyder E, Edwards RT. Putting Life in Years (PLINY): a randomised controlled trial and mixed-methods process evaluation of a telephone friendship intervention to improve mental well-being in independently living older people. *Public Health Res.* 2014;2(7): p1-222. doi: 10.3310/phr02070

Edwards R, Charles J, Thomas S, Bishop J, Cohen D, Groves S, Humphreys C, Howson H and Bradley P. A national Programme Budgeting and Marginal Analysis (PBMA) of health improvement spending across wales: disinvestment and reinvestment across

the life course. *BMC public health* 2014; 14(1): p. 837. doi: 10.1186/1471-2458-14-837

Orgeta V, Edwards R, Hounsborne B, Orrell M and Woods B. The use of the EQ-5D as a measure of health-related quality of life in people with dementia and their carers. *Quality of Life Research*; August 2014: p. 1-10. doi: 10.1007/s11136-014-0770-0

Davies, R, Lloyd-Williams, H, "An Investigation of the Potential for Wales-level Analysis of the British Household Panel Survey and Understanding Society: An Illustrative Analysis of Poverty Dynamics in Wales", Welsh Government Social Research 2014.

Holmes EA, Hughes DA, Morrison VL. Predicting Adherence to Medications Using Health Psychology Theories: A Systematic Review of 20 Years of Empirical Research. *Value Health.* 2014 Dec;17(8):863-876.

Plumpton CO, Yip VLM, Alfirevic A, Marson AG, Pirmohamed M, Hughes DA. Cost effectiveness of screening for HLA-A*31:01 prior to initiation of carbamazepine in epilepsy. *Epilepsia* 2015

Morrison VL, Holmes EAF, Parveen S, Plumpton CO, Clyne W, De Geest S, Dobbels F, Vrijens B, Kardas P, Hughes DA. Predictors of self-reported adherence to antihypertensive medicines: A multi-national, cross-sectional survey. *Value in Health* 2015; DOI: 10.1016/j.jval.2014.12.013

Roberts E, Dawoud DD, Hughes DA, Cefai C. Evaluation of a Consultant Audit and Feedback Programme to Improve the Quality of Antimicrobial Prescribing in Acute Medical Admissions. *Int J Pharm Pract.* 2015

Parham P, Hughes D. Climatic influences on the cost-effectiveness of vector-based interventions against malaria in elimination scenarios. *Philosophical Transactions B.* 2015

DIRUM

Mae DIRUM yn gronfa data mynediad agored o holiaduron am ddefnyddio adnoddau a phapurau methodolegol i'w defnyddio gan economegwyr iechyd sy'n gysylltiedig â gwerthusiadau economaidd wedi eu seilio ar broffion. Cyllidwyd gan Rwydwaith Canolfannau Ymchwil i Fethodoleg Arbrofion y Cyngor Ymchwil Meddygol, gellir gweld y gronfa ddata ar y cyswllt: <http://www.dirum.org/>

Sut i gael hyd i ni

Mae CHEME ar Safle'r Normal sydd rhwng Bangor ac Ynys Môn, ar ffordd yr A5.

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau Ardudwy, Safle'r Normal, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2PZ